Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

## 25 Medi 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad o Gyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd am 2025/26 a'r archwiliad perthnasol. |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad o gyfrifon statudol terfynol Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, yn ogystal ag adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, sy'n manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

1.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid. Mae rhain felly yn cael eu cynnwys yn Datganiad o Gyfrifon y CBC o 2025/26.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. Ystyried a chymeradwyo'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y CBC.

2.2. Ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon terfynol y CBC (ôl archwiliad) ar gyfer 2025/26.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2025/26. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o ISA260 Archwilio Cymru.

3.2. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Swyddog Cyllid Statudol, ardystio'r Llythyr Sylwadau. Gwneir hyn yn electronig (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r CBC gymeradwyo'r uchod.

3.3. Wedi iddi dderbyn y Llythyr Sylwadau wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Swyddog Cyllid Statudol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Catherine Mealing-Jones) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r CBC ar 25 Medi 2026 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

4.2. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2025/26 i'r CBC ar 19 Mehefin 2026. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Datganiad o Gyfrifon y CBC ar gyfer 2025/26

**Atodiad 2** Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Mae paratoi, archwilio a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol yn elfennau pwysig o drefniadau llywodraethu ariannol ac atebolrwydd statudol y CBC.

Gofynnir i Aelodau ystyried canfyddiadau Archwilio Cymru, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n gofyn am gamau pellach, a sicrhau eu hunain bod y rhain wedi'u trin yn briodol cyn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon terfynol.

Yn dilyn cymeradwyaeth, dylid cwblhau'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer ardystio a chyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol perthnasol.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.